

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22

Medi 2022



Gallwn ddarparu crynodeb y ddogfen hon mewn fformatau
hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei
Ddarllen. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Ebost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru



OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22

Cynnwys

06 **Rhagair**

08 **Cefndir**

09 Amdanom ni

10 Ein dyletswyddau o ran y
Gymraeg

12 **Ein perfformiad yn 2021/22**

13 Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

17 Safonau Llunio Polisiâu

21 Safonau Gweithredu

Rhagair

Yn OGCC, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud. Rydym am sicrhau bod pobl sy'n cysylltu â ni yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn gwasanaeth yn y Gymraeg. Rydym hefyd am gefnogi'n llawn y defnydd o'r Gymraeg gan ein staff - y rhai sydd eisoes yn siaradwyr Cymraeg ac eraill sy'n dechrau ar y daith ddysgu.

2021/22 yw blwyddyn lawn gyntaf ein cydymffurfiaeth â'n holl safonau'r Gymraeg. Mae'r Adroddiad hwn yn esbonio sut rydym wedi hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan sicrhau nad ydym wedi'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae'n bleser gennym adrodd ar ein llwyddiannau eleni. Er enghraifft, gwnaethom ehangu'r ystod o feddalwedd sydd ar gael i'n staff yn Gymraeg, cyfieithu adrannau allweddol o'n mewnrwyd, a nodi cynnydd yn y gyfran o staff sydd â sgiliau Cymraeg eithaf da neu rugl.

Rydym yn atebol am sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau i bobl Cymru ac i Gomisiynydd y Gymraeg. Rwy'n falch na chawsom unrhyw gwynion gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn ynghylch sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau. Wrth i mi ysgrifennu'r geiriau hyn, mae swyddfa'r Comisiynydd yn cynnal gwerthusiad manwl o'n cydymffurfiaeth. Rydym yn falch o fod wedi cael ein dewis ar gyfer y gwerthusiad hwnnw.

Hyderwn y bydd yn rhoi cyfle i ni ddangos ein harferion da yn ogystal â nodi ffyrdd y gallwn wella sut rydym yn darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, er ein bod yn hyderus ein bod yn cydymffurfio â'r safonau, gwyddom fod angen i ni wneud mwy. Er enghraifft, mae ein data monitro cydraddoldeb yn dangos yn gyson mai dim ond cyfran fechan o'r bobl sy'n cwyno wrthym sy'n datgan mai'r Gymraeg yw prif iaith eu cartref.




Hefyd, dangosodd ein harolwg cenedlaethol, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2022, fod ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymhlith siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig i 48%, o 52% yn 2020.

Ar hyn o bryd, rwy'n ymgynghori ar fy Nghynllun Strategol, sy'n gosod allan fy uchelgeisiau ar gyfer y swyddfa dros y tair blynedd nesaf. O dan y Cynllun, rwy'n cynnig rhoi pwyslais o'r newydd ar gynyddu ein hygyrchedd a'n cynhwysiant. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg a byddwn yn annog pobl i ddefnyddio eu hawliau o ran y Gymraeg.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru

Medi 2022



Cefndir





Amdanom ni

Rydym yn gwasanaethu pobl Cymru mewn 3 ffordd wahanol.

Ein rôl gyntaf yw ymdrin â chwynion am gamweinyddu, methiant gwasanaeth, neu fethiant i ddarparu gwasanaeth gan y mwyafrif o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, megis:



Llywodraeth
Leol



Y GIG
(gan gynnwys
meddygon teulu
a deintyddion)



Landlordiaid
Cymdeithasol
Cofrestredig



Llywodraeth Cymru
a'i chyrrff nodedig

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am gyrff cyhoeddus yng Nghymru [ar ein gwefan](#) (hefyd mewn fersiwn [Hawdd ei Ddarllen](#)).

Ein hail rôl yw ystyried cwynion bod aelodau etholedig o awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus. Yn y rôl hon, gallwn ystyried cwynion am:



Cynghorau Sir
a Chynghorau
Bwrdeistref Sirol



Cynghorau
Cymuned



Awdurdodau Tân



Awdurdodau
Parciau
Cenedlaethol

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am ymddygiad aelod o awdurdod lleol [ar ein gwefan](#) (hefyd mewn [fersiwn Hawdd ei Ddarllen](#)).

Ein trydedd rôl yw ysgogi gwelliannau systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn draddodiadol, rydym wedi gwneud hyn yn bennaf trwy gyhoeddi ein canfyddiadau, er enghraifft mewn adroddiadau diddordeb cyhoeddus ac adroddiadau thematig, llythyrau blynyddol at gyrff yn ein hawdurdodaeth a choflyfrau. Fodd bynnag, yn 2019 cawsom bwerau newydd i ysgogi gwelliannau systematig. Bellach, gallwn ymgymryd ag ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed pan nad ydym wedi derbyn cwyn. Gallwn hefyd osod safonau cwynion ar gyfer cyrrff cyhoeddus yng Nghymru a monitro eu perfformiad wrth ymdrin â chwynion.

Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg

O dan ein Deddf, mae angen i ni gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg (y Safonau). Croesawn y Gymraeg, ac rydym wedi ymrwymo i nodau'r Safonau ac i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.



Gwnaethom gytuno â Chomisiynydd y Gymraeg y byddem wedi cydymffurfio â phob un ac eithrio un o'n Safonau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021. Ymestynnwyd cydymffurfiaeth â Safon 100, sy'n ymwneud â'r gallu i ofyn yn y Gymraeg am wyliau blynyddol a chofnodi gweithio hyblyg ac absenoldebau, i 1 Ebrill 2022, gan fod hyn yn gofyn i ni uwchraddio ein system TG adnoddau dynol. Cyflwynwyd hwn ym mis Mawrth 2022.

[Gallwch ddarllen Safonau'r Gymraeg a'n hysbysiad cydymffurfio gyda'n Polisi Iaith Gymraeg ar ein gwefan yma.](#)

Cyfrifoldebau

Ein Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa. Mae ein Prif Swyddog Gweithredu a'n Cyfarwyddwr Gwella yn sicrhau bod rheoli gweithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau ymarfer da mewn perthynas â'r Safonau. Ein Tîm Gwella sy'n gyfrifol am y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Ein Pennaeth Polisi, Cyfathrebu ac EDI sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu ac adrodd ar bolisiau. Gellir cysylltu â nhw i drafod yr adroddiad hwn.

Mae'r holl staff yn derbyn gwybodaeth am ein dyletswyddau a'n hymrwymadau o dan y Safonau a'n Polisi Iaith Gymraeg, ac mae disgwyl iddynt gydymffurfio a chyfrannu fel y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut gwnaethom ni baratoi'r adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, defnyddiwyd canllawiau a chynghor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cymeradwyodd ein Tîm Rheoli yr adroddiad ar 13 Medi 2022.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Ar gais Comisiynydd y Gymraeg, ym mis Awst 2022, gwnaethom gwblhau hunanasesiad o ddetholiad o Safonau cyflenwi gwasanaeth, polisi a gweithredu. Rhoddodd canlyniadau'r ymarfer hwnnw dawlwlch meddwl i ni ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rhan fwyaf o'r Safonau a aseswyd gennym. Dim ond un safon a aseswyd - yn ymwneud â sut rydym yn cyfathrebu ag ymgeiswyr swyddi a fu'n llwyddiannus - cafodd hyn lefel sicrwydd canolig.

Ni chawsom unrhyw gwynion yn ymwneud â'n chydymffurfiaeth â'r Safonau yn ystod 2021/22. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan am sut y gellir gwneud cwynion am ein cydymffurfiaeth.



Ein perfformiad yn 2021/22





Safonau Cyflenwi Gwasanaeth



Bydd unrhyw un sy'n ysgrifennu atom yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg yn awtomatig.



Mae gennym 3 aelod o staff sydd ar gael i ateb y galwadau cychwynnol yn Gymraeg ac maent yn gweithio ar rota i sicrhau eu bod ar gael.



Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y cynnwys Cymraeg bob amser yn ymddangos yn gyntaf yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.



Mae ein gwasanaethau cwynion yn gwbl ddwyieithog. Gwnaethom hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar ddiwrnod Shwmae Su'mae ac ar ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg.



Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ddarpariaeth Gymraeg ein gwasanaethau yn 2021/22.

Defnydd o'n gwasanaethau

Dim ond mewn 1% o'n holl achosion a 1% o'n cwynion yn 2021/22 y nododd defnyddwyr gwasanaethau y byddai'n well ganddynt i ni gysylltu â nhw yn Gymraeg.

Gohebiaeth (Safonau 1-7)

Rydym yn datgan ym mhob neges ebost a throedyn llythyr ein bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson drwy gynnwys y datganiad yn ein templedi ebost a gohebiaeth safonol ar ein system rheoli gwaith achos ac unrhyw negeseuon ebost a anfonir o'n system ebosti 'Outlook'.

Bydd unrhyw un sy'n ysgrifennu atom yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg yn awtomatig.

Mae cyfarwyddyd ar gael i'n staff ynghylch sut i wneud eu llofnod ebost ac ymatebion allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, ac os ydynt yn gallu cyfathrebu'n ysgrifenedig yn Gymraeg, darparwyd baner iddynt ei chynnwys yn eu llofnod.

Ffôn (Safonau 8-22)

Caiff bob galwad ffôn ei hateb yn ddwyieithog, gyda'r cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau awtomataidd hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae gan alwyr yr opsiwn i ddewis siarad Cymraeg. Y Gymraeg yw'r opsiwn cyntaf bob amser.

O fis Ebrill 2021 tan ddiwedd mis Mawrth 2022, dewisodd 1% o'r holl alwyr i'n swyddfa yr opsiwn i siarad Cymraeg.

Mae gennym 3 aelod o staff sydd ar gael i ateb y galwadau cychwynnol yn Gymraeg ac maent yn gweithio ar rota i sicrhau eu bod ar gael.

Mae staff wedi cael cyfarwyddyd i newid negeseuon peiriant ateb personol fel eu bod yn ddwyieithog. Mae staff wedi cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant ar sut i wneud hyn.

Yn ein Timau Derbyn, Asesu ac Ymchwilio mae gennym ni:

- 3 Swyddog Gwaith Achos sy'n siarad Cymraeg
- 1 Swyddog Ymchwilio Tîm Asesu sy'n siarad Cymraeg
- 2 Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol sy'n siarad Cymraeg
- 4 Swyddog Ymchwilio Tîm Ymchwilio sy'n siarad Cymraeg.

Mae swyddog achos sy'n siarad Cymraeg yn cael ei neilltuo i bobl sy'n cysylltu â'n swyddfa i wneud cwyn ac sy'n dymuno i'w cwyn gael ei thrin yn Gymraeg, er mwyn iddynt gysylltu'n uniongyrchol ag ef neu hi. Ar adegau pan fydd pobl yn ffonio rhif uniongyrchol ynghylch cwyn lle nad yw'r person sy'n cael ei ffonio yn siarad Cymraeg, gallwn drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg i ddelio â'r ymholiad.

Gall pobl sy'n cysylltu â rhifau llinell uniongyrchol ar gyfer ymholiadau eraill, er enghraifft er gwybodaeth am gais am swydd neu dendr, gael eu trosglwyddo i rywun sy'n gallu siarad â nhw yn Gymraeg cyn belled ag y bo rhywun sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfarfodydd (Safonau 24 - 32)

Lle nad ydym wedi cysylltu ac wedi sefydlu sut y byddai person yn dymuno cynnal cyfarfod, byddwn yn canfod pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod.

Mae pob cyfarfod mwy a drefnir gennym yn cynnwys cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a phapurau 'Cymraeg yn gyntaf', ac rydym yn gwirio gyda'r cyfranogwyr a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, rhag ofn bod angen gwasanaethau cyfieithu. Enghraifft o gyfarfodydd perthnasol oedd y gyfres o bedwar cyfarfod seinfwrdd a drefnom ym mis Mawrth 2022 ar gyfer ein rhanddeiliaid – llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau cynrychioliadol ein defnyddwyr, fel sefydliadau eiriolaeth. Dywedodd y cyfranogwyr wrthym nad oedd angen gwasanaethau cyfieithu arnynt, ond serch hynny, gwnaethom eu gwahodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod os dymunent.

Ni chynhaliom gyfarfodydd a oedd ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd. Ni threfnom unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddusrwydd (Safonau 33–72)

Mae ein gwefan yn ddwyieithog ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob rhyngwyneb a dewislen ar gael yn Gymraeg, a bod dolenni uniongyrchol bob amser o'r Saesneg i dudalennau cyfatebol Cymraeg. Cawsom wybod gan Gomisiynydd y Gymraeg am nifer fach o achosion lle bu i ni fethu â chyrraedd y safon honno. Byddwn yn cynnal archwiliad mewnol o'n tudalennau gwe i sicrhau ein bod yn canfod ac yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y cynnwys Cymraeg bob amser yn ymddangos yn gyntaf yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom bostio 202 o weithiau ar Twitter, gyda llawer o'r postiadau'n cael eu hailadrodd ar LinkedIn a Facebook. Mewn un achos, cyhoeddwyd post yn uniaith Saesneg, oherwydd camgymeriad dynol.

Ar hyn o bryd, dim ond ychydig o ymwelwyr sy'n ymweld â'n swyddfa, ond mae gennym y cyfleusterau hyn:



Mae ein cyfarchiad drws yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.



Rydym yn arddangos arwydd yn ein derbynfa sy'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae ein holl staff sy'n siarad Cymraeg yn cael bathodyn sy'n dangos eu bod yn gallu siarad ag ymwelwyr yn Gymraeg. Mae gennym 6 aelod o staff sy'n derbyn ymwelwyr ac mae 1 person yn gwbl rugl ac yn gallu cyfarch pobl yn Gymraeg. Gall pob aelod arall o staff sy'n gweithio ar ein derbynfa gyfarch pobl yn Gymraeg.

Caffael (Safonau 72- 76)

Mae ein Polisi Caffael yn datgan ein bod yn croesawu ceisiadau am dendrau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Yn 2021/22, gwnaethom hysbysu 3 thendr. Ni chyflwynodd yr un o'r cyflenwyr gais tendr yn Gymraeg.

Hyrwyddo gwasanaethau (Safonau 77 - 80)

Mae ein gwasanaethau cwynion yn gwbl ddwyieithog. Gwnaethom hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar ddiwrnod Shwmae Su'mae ac ar ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg.

Caiff ein hyfforddiant Safonau Cwynion ei gynnig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae un corff cyhoeddus wedi manteisio ar y cynnig o hyfforddiant yn y Gymraeg.

Mae ein logo yn ddwyieithog ac yn nodi enw ein sefydliad yn Gymraeg yn gyntaf.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ddarpariaeth Gymraeg ein gwasanaethau yn 2021/22.



Safonau Llunio Polisiâu



I sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, mae ein Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.



Cynhaliom 11 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiau yn 2021/22. Ni nododd yr un ohonynt effaith negyddol ar y Gymraeg.



Fel rhan o ymgynghoriad ar ganllawiau Egwyddorion Gweinyddu Da a 'Rheoli Cofnodion yn Dda', gofynnem ynglyn ag unrhyw effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Polisiâu a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (Safonau 84– 86)

I sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, mae gennym y cytundebau canlynol ar waith:

- **Polisi Iaith Gymraeg** – sy'n nodi ein dyletswyddau a'n hymrwymiaidau o ran cydymffurfio â'r safonau llunio polisi.
- **Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** – sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac sy'n anelu at:
 - ragweld neu nodi canlyniadau polisi ar unigolion neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth/gweithwyr a'u defnydd o'r Gymraeg;
 - sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cau eu dileu neu eu lleihau i'r eithaf;
 - gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

- Gweithdrefn Rheoli Polisi – sy'n sicrhau bod ein holl bolisiau'n gyfredol, yn gyson o ran cyflwyniad, yn cael eu cyhoeddi'n briodol, ac yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r Weithdrefn yn nodi'n glir bod yn rhaid i'n holl bolisiau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod yn rhaid iddynt gael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein Mewnrwyd ac ar y wefan.
- Swyddog penodedig ar gyfer Rheoli Polisi - yn gyfrifol am sicrhau bod y weithdrefn yr Asesiad o'r Effaith a'r Weithdrefn Rheoli Polisi yn cael eu gweithredu'n gywir.
- Grŵp Cydraddoldeb mewnol - i ddarparu cyngor a chymorth i berchnogion polisi sy'n datblygu polisi newydd neu'n adolygu polisi ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.

Cynhaliom 11 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiau yn 2021/22. Ni nododd yr un ohonynt effaith negyddol ar y Gymraeg.



Ymgynghoriadau (Safonau 87 - 89)

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021, buom yn ymgynghori ar ganllawiau Egwyddorion Gweinyddu Da a 'Rheoli Cofnodion yn Dda'. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn:

- Pa effeithiau y gallai'r canllawiau eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- Sut y gellid hybu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Comisiynu ymchwil (Safonau 91-93)

Nid ydym wedi comisiynu nac wedi cynnal unrhyw ymchwil er mwyn gwneud penderfyniad polisi ers 31 Ionawr 2021.







Safonau Gweithredu



Mae gennym Bolisi Iaith Cymraeg ar waith, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan y Safonau.



Gofynnwn i bob cydweithiwr newydd sy'n ymuno â ni ddatgan a hoffai gael unrhyw ohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, amcanion perfformiad neu gynllunio gyrfa yn Gymraeg neu yn Saesneg.



Mae ein holl bolisiau adnoddau dynol sy'n ymwneud ag ymddygiad, iechyd a diogelwch, buddion y gweithle, rheoli perfformiad, absenoldeb, amodau gwaith a phatrymau gwaith ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan a'n safle mewnwyd.



Dywedodd 14% o'n staff mai Cymraeg oedd eu prif iaith (o gymharu â 12% y llynedd). Roedd cyfran y bobl â sgiliau gweddol dda neu rugl hefyd yn uwch:



siarad: 27% (o gymharu â 21% y llynedd)



darllen: 30% (o gymharu â 24% y llynedd)



ysgrifennu: 27% (o gymharu â 21% y llynedd)



deall: 30% (o gymharu â 25% y llynedd)

Polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)

Mae gennym **Bolisi Iaith Cymraeg** ar waith, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan y Safonau. Mae'r polisi yn cynnwys adran sy'n egluro ein dull o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae ar gael ar yr Hwb (ein mewnrwyd) ac ar ein gwefan gyhoeddus. Bwriedir adolygu'r polisi ym mis Ionawr 2023.

Dogfennau cyflogaeth (Safonau 95 - 100)

Gofynnwn i bob cydweithiwr newydd sy'n ymuno â ni ddatgan a hoffai gael unrhyw ohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, amcanion perfformiad neu gynllunio gyrfa yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Yn ystod 2021/22, ymunodd pedwar cydweithiwr newydd â'n tîm. Roedd 2 yn weithwyr dros dro ac ni ofynnwyd iddynt am eu dewis iaith o dan y safon hon. Bwriadwn newid hyn wrth symud ymlaen, gan ofyn i'r holl staff beth yw eu dewis. O'r 2 aelod arall o staff, nid oedd gan un unrhyw ofynion iaith Gymraeg a dim ond gwirydd sillafu Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg oedd ei angen ar un (sydd ar gael i'r holl staff).

Yn y ffurflen gais, gofynnwn i ymgeiswyr a fyddent yn hoffi cael dogfennau yn ymwneud â'r posibilrwydd o gyflogaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gwnaethom gydymffurfio â Safon 100 (gwyliau blynyddol/proses absenoldebau

o'r gwaith yn ddwyieithog) o ganol mis Mawrth 2022 (i'w gyhoeddi ar 1 Ebrill 2022), unwaith y byddai'r system berthnasol wedi'i diweddarau.

Polisïau cyflogaeth (Safonau 101 - 107)

Mae ein **holl bolisïau adnoddau dynol** sy'n ymwneud ag ymddygiad, iechyd a diogelwch, buddion y gweithle, rheoli perfformiad, absenoldeb, amodau gwaith a phatrymau gwaith ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan a'n safle mewnrwyd.

Gweithdrefnau cwynion staff a disgyblu staff (Safonau 108 - 115)

Gellir ymgymryd â'n **trefniadau cwyno a disgyblu** yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion yn Gymraeg nac wedi cymryd camau disgyblu yn Gymraeg yn ystod 2021/22.

Technoleg i hwyluso defnydd staff o'r Gymraeg (Safonau 116 - 122)

Mae gan bob aelod o staff fynediad at feddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg Cymraeg.

Mae'r holl staff wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i newid gosodiadau iaith ar gyfer y canlynol:

- Microsoft EDGE
- Prawf iaith Microsoft Outlook
- Microsoft Windows
- Microsoft Office
- Yr Hwb (tudalen gartref / tudalen newyddion / tudalen polisi).

Mae gennym wefan ar ein Mewnrwyd sy'n cynnwys gwybodaeth am ein proses gyfieithu, mynediad i hyfforddiant Cymraeg, ein dyletswyddau o dan y safonau a gwybodaeth berthnasol arall.

Sgiliau Cymraeg y staff (Safon 123)

Cynhaliwn arolwg blynyddol o'n staff a chasglwn wybodaeth am lefel sgiliau Cymraeg fel rhan o'r arolwg hwnnw.

Yn 2021/22, dywedodd 14% o'n staff mai Cymraeg oedd eu prif iaith (o gymharu â 12% y llynedd). Roedd cyfran y bobl â sgiliau gweddol dda neu rugl hefyd yn uwch:

- Siarad: 27% (o gymharu â 21% y llynedd)
- Darllen: 30% (o gymharu â 24% y llynedd)
- Ysgrifennu: 27% (o gymharu â 21% y llynedd)
- Deall: 30% (o gymharu â 25% y llynedd).

Er ein bod yn cadw'r data hwn, ac wedi'i ddadansoddi, oherwydd y nifer fach o staff ar lefelau penodol neu mewn rhai timau, nid yw'n ymarferol i ni rannu data sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ar raddfeydd gwahanol neu mewn timau gwahanol heb y perygl o ddatgelu pwy yw'r unigolion a datgelu data personol.

Cefnogaeth hyfforddi a chyfathrebu (Safonau 124 - 131)

Mae sylw i Safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn ein rhaglen cynefino (Modiwl 2 – Cyflwyniad i'r Sefydliad). Mae'r holl ddeunydd cynefino ar gael yn Gymraeg ond, hyd yma, ni fu unrhyw alwad i'w gyflwyno yn Gymraeg.

Rydym yn annog staff i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys yn ystod amser gwaith, ac rydym yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno parhau i wella eu Cymraeg i wneud hynny. Mae hyfforddiant o dan safon 128 wedi'i drefnu ar gyfer 2022.

Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyfweiliadau ac wedi sicrhau hyfforddiant ar-lein yn y Gymraeg gan ein darparwr hyfforddiant, IHASCO. Mae hyn yn cynnwys lechyd a Diogelwch. Nid ydym wedi darparu hyfforddiant ar yr elfennau eraill a gynhwysir o dan safon 124 (yn Gymraeg neu Saesneg) yn ystod 2021/22.

Recriwtio (Safonau 132 - 136)

Mae ein Polisi Recriwtio a Dethol yn cadarnhau na fyddwn yn cychwyn ar y drefn recriwtio hyd nes y bydd yr angen am sgiliau Cymraeg wedi'i asesu a'i gofnodi. Rydym yn sefydlu'r angen am sgiliau Cymraeg fel rhan o'r gwaith o ddatblygu disgrifiadau swydd unigol a manylebau person, yn seiliedig ar brinder sgiliau ac anghenion o fewn y sefydliad. Rydym yn manylu ar yr angen am sgiliau Cymraeg yn y disgrifiad swydd a'r hysbyseb cyn i'r swydd wag fynd yn "fyw".

Rydym yn hysbysebu ein holl swyddi gwag yn ddwyieithog ac mae'r hysbysebion yn nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Mae'r holl ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r pecyn recriwtio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae ein ffurflenni recriwtio yn rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi a hoffent i'r broses recriwtio gael ei chynnal yn Gymraeg.


Rydym yn ymwybodol nad oedd un ffurflen gais ar ein gwefan yn ystod y flwyddyn, sy'n gwahodd ceisiadau gan Gynghorwyr Clinigol a Phroffesiynol, wedi'i chysylltu'n gywir â'r fersiwn Gymraeg. Rydym bellach wedi diwygio'r gwall hwnnw.

Rydym bob amser yn ceisio cyfathrebu â'r ymgeisydd swydd yn eu dewis iaith. Mae hyn yn cynnwys y 'llythyr cynnig'. Fodd bynnag, gan ein bod yn ffonio'r ymgeisydd llwyddiannus i'w hysbysu o'n penderfyniad, nid ydym bob amser wedi

gwneud y galwad hwnnw yn Gymraeg i'r ymgeiswyr hynny sydd wedi nodi bod well ganddynt y Gymraeg fel iaith cyfathrebu â ni. Mae ein Partner Busnes AD wedi cael gwybod am hyn a bydd yn sicrhau bod pob galwad o'r fath yn cael ei gwneud yn unol â dewis iaith yr ymgeisydd.

Arwyddion (Safonau 138—139)

Gan ein bod yn rhentu ein swyddfeydd, nid oes gennym reolaeth dros yr arwyddion allanol parhaol i'n swyddfa. Fodd bynnag, mae pob arwydd dros dro sy'n ymwneud â'n swyddfa yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Facs: 01656 641199

Ebost: holwch@ombwdsmon.cymru

Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)